**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1257
Ein cyf/Our ref: RE-00051-22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Cardiff
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

8 Chwefror 2022

Annwyl Jack

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â Deiseb P-06-1257, Lleihau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo ar ystadau preifat.

Y Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n arwain ar gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i 'sicrhau bod taliadau ystad am fannau agored cyhoeddus a chyfleusterau cyhoeddus yn cael eu talu mewn ffordd sy'n deg'. Mae nifer o gamau'n cael eu cymryd i roi sylw i achosion a symptomau'r taliadau ystad sy'n cael ei godi ar ddeiliaid tai, gan gynnwys:

- Deddfwriaeth i greu systemau cyson ar gyfer cydsynio, mabwysiadu a thalu, sy'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol;
- Deddfwriaeth i roi sylw i fethiant awdurdodau lleol i fabwysiadu cynlluniau draenio sy'n bodoli eisoes a chynlluniau newydd;
- Deddfu i alluogi rhydd-ddeiliaid i herio rhesymoldeb taliadau ystad (ar yr un sail ag y mae lesddeiliaid yn gallu gwneud hynny ar hyn o bryd);
- Rheoleiddio cwmnïau rheoli eiddo preswyl.

Nid yw'r dreth gyngor yn ffi wasanaethau ond yn hytrach yn dreth leol sy'n cyfrannu at y cyllid cyffredinol ar gyfer amrywiaeth eang o wasanaethau lleol. Nid yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chael gwasanaethau penodol. Mae'r cyllid cyffredinol hwn yn talu am amrywiaeth eang o wasanaethau lleol, gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, trafnidiaeth, casglu gwastraff ac ailgylchu, gwasanaethau amgylcheddol a darparu gwasanaethau hamdden – gwasanaethau y mae'r holl drethdalwyr lleol yn elwa arnynt. Mae aelwydydd unigol yn amrywio'n fawr o ran eu defnydd o wasanaethau penodol, gan ddibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys daearyddiaeth ac amgylchiadau'r aelwyd ei hun.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae amwynderau ar ddatblygiadau ystadau preifat yn cael eu darparu fel gwasanaethau penodol o dan drefniadau ar wahân.

Dylai unrhyw aelwyd sy'n cael anawsterau i dalu ei bil treth gyngor gysylltu â'i hawdurdod lleol er mwyn gweld a yw'n gymwys i gael disgownt neu ostyngiad. Yn ogystal â'r amrywiaeth o gynlluniau gorfodol sydd ar waith, mae gan awdurdodau lleol bwerau disgresiwn i leihau biliau treth gyngor ar gyfer aelwydydd neu eiddo penodol.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government